# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 12.03.2024

*Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle,Lynda Masarelli, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Erwyn Jones,Gareth Jones*

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. EH.ER

2a. Datgan Diddordeb – Pwysleisioedd y Cadeirydd ar y pwysicrwydd i ddatgan diddordeb. Mae yn cael ei nodi ar ddechrau'r cofnodion i gwmpasu pob mater sydd yn cael ei drafod.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.523 Cae Chwarae Gellilydan – – Cyfarfod safle 30/01/24 - yn bresennol, Luca Woodcock o ADRA, Bryn Hughes o Cyngor Gwynedd, Meredydd Williams ac Heulwen Parry o'r Cyngor Cymuned. Cyngor Gwynedd i anfon dogfennau ymlaen i gadarnhau mae Cyngor Cymuned Maentwrog sydd yn gyfrifol am y cae chwarae.

3.524 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Elfed Roberts wedi trefnu cyfarfod at yr 20fed o Fawrth

3.525 National Grid: MW am anfon gwybodaeth ymlaen at Dwynwen Williams (cadw mlaen).

3.526 Parcio Gellilydan: Ceir dal i barcio, clerc i ail-gysylltu ac PC Elliw Roberts.

3.527 Bryn Arms – ymateb wedi ei dderbyn gan Rhidian Roberts,

*Os mai'r gwaith i'r cylfat sydd dan sylw yna fydd hyn ddim o ddiddordeb i'r Parc gan mai CG sy'n caniatáu gwaith o'r fath.*

*Gobeithio fod hyn yn ateb yr ymholiad ond rhowch wybod ar bob cyfri os ydych angan trafod ym mhellach.*

Clerc i ymateb bod angen ymateb mwy eglur a gwybodaeth hefo pwy i gysylltu, ac bod y safle i gyd o dan sylw.

3.528 Gofeb – Iechyd a Diogelwch – Megan wedi cyfarfod ar y safle gyda Meredydd Williams, dim angen rhoir tapiau yno er mwyn dechrau ar y gwaith. Awgrymodd i roi llechi addurniadol yno, Dref Werdd i anfon costau ymlaen i'r Cyngor Cymuned.

3.529 Dref Werdd – Gwaith arbennig iawn wedi ei wneud yn yr ardd gymunedol yng Ngellilydan. Diolchwyd i Heulwen Parry am ei gwaith gyda'r Dref Werdd.

3.530 Neuadd y Pentref - diolchwyd i Lynda Massarelli am gydweithio gyda'r Neuadd i gael grantiau. Cyfansoddiad y Neuadd i ddilyn, LM am anfon copi i'r ymddiriedolwyr.

3.531 Plas Tan y Bwlch - I'w roi ar Agena mis Mai

3.532 Tir Comin gerTomen y Mur – MW wedi tynnu sylw i gynnwys llythur o'r Goron at sylw

Liz Savvile-Roberts yn enwi y cwmni dan sylw, sef John Roberts Ffestiniog, ond nid yw Meredydd Williams yn fodlon trin a thrafod oherwydd nid yw am roi y cynghorwyr mewn sefyllfa annifyr,

3.533– Safleoedd Bysiau Maentwrog –ER am drefnu cyfarfod gyda Rhian Wyn Williams.

3.534 Archwiliad HP am ddrafftio llythyr at sylw Mabon Ap Gwynfor, Rebecca Evans ac Un-Llais.

3.535 Bysus Ysgol yn hwyr yn codi'r plant – Sefyllfa wedi gwella, LM am anfon adroddiad I'r clerc.

3.536 Coed y Brenin – LM wedi methu mynychu y Cyfarfod Cyhoeddus, ER yn bresenol, clerc i anfon llythyr o ddiolch i Dafydd Caradog am ei gyfraniad yn y cyfarfod cyhoeddus.

4. Materion i'w trafod ar y pryd

4.218 Fynwent – gweler pwynt 9.31

4,219 Amseroedd Cyfarfodydd y Cyngor – I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

4.220 Hyfforddiant – cyfarfod nesaf.

5. Ariannol

5.150 Cyfrif Cadw: £221.77

5.151 Cyfrif Cyfredol: £1193.37

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.152 CFFI

5.153 Kevin Williams

6. Cynllunio

6.66 Cymal ynglŷn a thŷ amaethyddol - ymateb wedi ei dderbyn gan Aled Lloyd o'r Parc:

*Ymhellach i'ch e-bost, os bydd yn Awdurdod yn canitau tŷ menter gwledig, bydd yr amod isod yn cael ei osod ar unrhyw ganiatâd.*

*Bydd meddiannaeth yr annedd wedi'i chyfyngu i:*

*a) unigolyn sy'n gweithio'n bennaf neu'n gyfan gwbl, neu a oedd yn gweithio ddiwethaf, ar fenter wledig yn yr ardal leol, neu ŵr neu wraig weddw neu bartner sifil unigolyn o'r fath, ac unrhyw ddibynyddion preswyl;*
*neu, os gellir dangos nad oes meddianwyr cymwys,*

*b) unigolyn neu unigolion a fyddai'n gymwys i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy o dan bolisïau tai'r awdurdod lleol, neu ŵr neu wraig weddw neu bartner sifil unigolyn o'r fath, ac unrhyw ddibynyddion preswyl.*

Dim gwrthwynebiad I'r cais canlynol

6.67 NP5/73/LB317J - Porth Gwyn, Tan y Bwlch, Maentwrog – Codi canopi Newydd i'r drychiad dwyreiniol.

7. Gohebiaeth

238 Cyngor Cymuned Pistyll

239 CFFI

240 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion.

9. Mynwent Dwyryd

9.30 Cyfrif y Fywent: £17489.08

9.31 Yn dilyn gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar, llanast wedi cael ei adael yno, rhaid ychwanegu at reolau'r Fynwen bod rhaid cael dyddiad ac amser am unrhyw waith sydd yn caei ei wneud yno e.e. gosod carreg fedd, hefyd pryd mae'r gwaith yn cael ei gwblhau. Dim unrhyw lanast i'w adael yno.

9.32 Cyfarfod Safle 5ed Chwefror, EJ, ER, MW yn bresennol –

- paswyd i glirio'r darn isaf er mwyn hwyluso ar gyfer plannu coed gan y dref werdd - infois i ddilyn
- paswyd I wneud lle i'r biniau ailgylchu
- MW/EJ wedi cyfarfod gyda Dylan yr Ymgymerwr o Pritchard & Griffiths – paswyd i gysylltu a Mr & Mrs Rix o'r Rheithordy i drefnu cyfarfod safle er mwyn cael symud ymlaen gyda'r cynlluniau.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod Blynyddol 6ed o Fai am 6 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan, cyfarfod cyffredinol i ddilyn.